

Canllawiau ar gyfer Ceisiadau am Ddyrchafiad i Fand 2 a 3 i Athrawon

Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyfrannu ar draws rhychwant amcanion strategol y Brifysgol, a hynny ar ben y rhagoriaeth y gallant ei nodi yn y maes o'u dewis. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y dylai ceisiadau ar y lefel hon nid yn unig ddangos rhagoriaeth fel unigolion, ond hefyd arweinyddiaeth sylweddol, gyson a chydabyddedig yn y brifysgol ac yn allanol.

I gael gwybodaeth am y meini prawf ar gyfer dyrchafiad i fand 2 a 3 i athrawon, cyfeiriwch at y 'Meini Prawf i Athrawon'. Ni ddisgwylir i ymgeiswyr gyflawni'r holl ddangosyddion ym mhob maes.

Cyfle Cyfartal

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal yn ei holl weithgareddau ac mae'n anelu at greu amgylchedd i weithio, dysgu, ymchwilio ac addysgu ynddo sy'n rhydd o wahaniaethu a thriniaeth annheg. Bwriedir i'r drefn ar gyfer dyrchafu fod yn deg, yn eglur ac yn cyd-fynd â pholisïau cyfleoedd cyfartal y Brifysgol.

Enwebu Aseswyr Allanol / Canolwyr

Os yw'r Pwyllgor yn fodlon bod achos *prima facie* wedi'i sefydlu, bydd y Pwyllgor yn ceisio asesiadau annibynnol ar y cais gan o leiaf bedwar o ganolwyr. Dylai tri o'r rhain fod yn bobl allanol a fydd, fel rheol, yn Athrawon yn yr un maes/pwnc neu mewn pwnc/maes cytras.

Dylai'r rhain fod yn ysgolheigion a berchir ar lefel gadeiriol lawn (neu gyfatebol), heb hanes o gydweithredu'n agos na chyhoeddi â'r ymgeisydd. Fel rheol, dylid enwebu o leiaf un aseswr rhyngwladol.

Y Pwyllgor yn y pen draw fydd yn pennu enwau'r aseswyr allanol y gofynnir am eu sylwadau.